## Hysbysiad Cyngor Adnewyddu'r Economi – 01 Chwefror 2016

Bu cyfarfod o Gyngor Adnewyddu'r Economi yr wythnos hon (1 Chwefror), a'r prif drafodaethau oedd y diwydiant dur yng Nghymru.

Roedd pob un o'r partneriaid cymdeithasol yn bresennol. Roedd TUC Cymru yn bresennol, yn ogystal â chynrychiolwyr Unite ac Undebau Cymunedol. Roedd cynrychiolwyr busnes yn cynnwys CBI, FSB, IoD, Cadeirydd Commerce Cymru, ICAEW, Siambr Fasnach De Cymru, RICS a Chymdeithas y Cyfreithwyr. Roedd y mentrau cymdeithasol yn cael eu cynrychioli gan Ganolfan Cydweithredol Cymru.

Cafodd y Cyngor y newyddion diweddaraf am Dasglu Tata, oedd wedi cyfarfod am y tro cyntaf ddau ddiwrnod wedi'r cyhoeddiad. Cynhelir ail gyfarfod y Tasglu brynhawn heddiw.

Cafodd y gweithredu cyflym a phroactif gan Lywodraeth Cymru wrth gymeryd camau ar fyrder i sefydlu'r Tasglu ei gydnabod gan y Cyngor. Cytunoddd y Cyngor mai'r blaenoriaethau oedd sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i'r rhai yr effeithir arnynt yn ogystal â mynd i'r afael â'r effaith ar yr economi leol a chadwyni cyflenwi.

Fodd bynnag, pwysleisiodd y Cyngor fod y problemau tyngedfennol sy'n cael effaith ar y diwydiant dur yn llawer ehangach na'r hyn y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud, a bod angen i Lywodraeth Prydain gymeryd camau amlwg ar unwaith i ddelio ag amrywiol broblemau difrifol, gan gynnwys yr angen am strategaeth i gefnogi'r diwydiant dur.

Yn benodol, bu'r Cyngor yn annog Llywodraeth Prydain i wneud cais ar frys i Gronfa Globaleiddio Ewrop roi y cymorth sydd ei angen yn fawr i'r rhai sydd mewn perygl o golli eu swyddi.

Mae'r argyfwng presennol yn dilyn y pwysau parhaus fu ar y diwydiant dur yn Ewrop o ganlyniad i fewnforio rhad, yn enwedig o Tsieina, a gwledydd eraill hefyd bellach, gan gynnwys Rwsia, a galwodd y Cyngor am fesurau atal dympio ar fyrder ar ddeunyddiau dur.

Cafodd y bygythiad o weld Tsiena yn cael ei chydnabod fel gwlad sydd ag economi'r farchnad ei bwysleisio, a'r effaith negyddol fyddai hyn yn ei gael ar unrhyw fesurau gwrth-ddympio.

Ystyriwyd bod caffael yn un o'r ffyrdd mwyaf pwerus o newid pethau. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu ar hyn ond roedd angen i Lywodraeth Prydain ymrwymo i weithredu'n weladwy ar bob prosiect seilwaith mawr megis Morlyn Llanw Bae Abertawe. Roedd hyn yn bwysig, nid yn unig o ran effaith faint o ddur sydd ar gael a'r pris gan y diwydiant, ond o ran diogelwch mewn achosion ble y mae ansawdd is neu gynnyrch dur sy'n is na'r safon yn cael ei fewnforio i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau adeiladu ym Mhrydain.

Mae effaith prisiau ynni uchel ym Mhrydain wedi'i godi yng Nghyngor Adnewyddu'r Economi ers sawl blwyddyn. Bu galwadau dro ar ôl tro ar i Lywodraeth Prydain ddelio â'r mater hwn. Roedd effaith y prisiau uchel hyn ar ba mor gystadleuol yw'r diwydiant dur yng Nghymru yn fyd-eang yn hynod amlwg heddiw.

Roedd y Cyngor yn unfrydig wrth alw am weithredu amlwg ar fyrder gan Lywodraeth Prydain i gefnogi'r sector dur, gan gydnabod bod y diwydiant yn dioddef un o'r adegau mwyaf argyfyngus yn ei hanes. Mae'r sector yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r cynnyrch domestig gros, ac mae'n cynnal miloedd o swyddi ledled Cymru a Phrydain. Tynnodd y Cyngor sylw at ganlyniadau difrifol colli gallu Prydain i gynhyrchu dur a gorfod dibynnu ar fewnforion am nwyddau sydd mor dyngedfennol. Hefyd, ni fyddai effaith unrhyw

ddirywiad pellach yn y diwydiant dur yn cael effaith ar y rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn unig, ond byddai hefyd yn cael effaith ar weithgynhyrchu ledled Cymru.